



# Mesur cymylogrwydd dŵr

**Amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd**

10 munud

**Lleoliad**

Dan do neu y tu allan

## Cyd-destun

Mesuriad o ba mor gymylog, budr neu aneglur yw corff o ddŵr yw cymylogrwydd. Gall deunydd crog fel tywod, silt, clai neu algâu gynyddu cymylogrwydd dŵr, gan effeithio ar dwf planhigion a bioamrywiaeth. I gael esboniad manwl o'r hyn yw cymylogrwydd a sut mae'n effeithio ar ansawdd dŵr, darllenwch y Nodyn Gwybodaeth - Cymylogrwydd.

Sicrhewch fod eich dysgwyr yn deall beth yw ystyr cymylogrwydd cyn cwblhau'r arbrawf hwn. Arllwyswch wydraid o ddŵr yfed. Eglurwch wrth eich dysgwyr ei fod yn glir ac yn dryleu a bod ganddo lefelau cymylogrwydd isel. Cymysgwch ronynnau grefi neu goffi i mewn i'r dŵr. Nid yw'n glir mwyach ac mae'n amhosibl gweld trwyddo. Mae lefel cymylogrwydd wedi cynyddu i fod yn uchel.

Bydd y prawf hwn yn defnyddio mesurydd cymylogrwydd cartref i bennu cymylogrwydd sampl o ddŵr. Y clirïaf y dŵr, yr isaf yw lefel y cymylogrwydd, er nad yw'r ffaith bod gan sampl dŵr lefel cymylogrwydd isel yn golygu ei fod yn addas i'w yfed - efallai y bydd wedi'i halogi o hyd.

Cerdyn Adnoddau CNC - Mae mesur cymylogrwydd dŵr yn seiliedig ar gerdyn adnoddau cymylogrwydd OPAL.

## Cwricwlwm i Gymru

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- **Beth sy'n bwysig** - Mae mater a'r ffordd mae'n ymddwyn yn diffinio ein bydysawd ac yn siapio ein bywydau.

### Mathemateg a Rhifedd

- **Beth sy'n bwysig** - Mae Geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n cynnwys siâp, gofod a lleoliad, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintoli ffenomena yn y byd ffisegol.

## Amcanion

### Erbyn diwedd y gweithgaredd bydd dysgwyr yn gallu:

- Pennu lefel cymylogrwydd sampl o ddŵr.
- Dod i gasgliad am glirder y dŵr a pha agweddau o ansawdd y dŵr y gallai hyn eu dangos ai peidio.

## Offer ac adnoddau

- Darn 1c
- Cerdyn adnoddau - Mesur cymylogrwydd dŵr
- Sampl dŵr
- Hambwrdd neu botel blastig



## Beth i'w wneud

Gellir cwblhau'r gweithgaredd naill ai fel arddangosiad gyda dysgwyr yn arsylwi neu gyda dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach.

1. Argraffwch, torrwch a lamineiddiwch y 'Cerdyn adnoddau - Mesur cymylogrwydd dŵr'.
2. Tapiwch ddarn 1c i gefn y cerdyn i'w bwysu i lawr a'i osod ar waelod yr hambwrdd sampl dŵr neu ei rolïo i fyny a'i wthio i lawr gwddf potel. Sicrhewch fod yr arwyneb sydd wedi ei brintio yn wynebu i fyny.
3. Casglwch eich sampl dŵr naill ai yn eich hambwrdd neu yn y botel sampl.
4. Arhoswch ychydig eiliadau i'r dŵr setlo cyn edrych i lawr ar y cerdyn adnoddau. Faint o logos CNC allwch chi eu gweld?

Nifer o logos CNC sydd i'w gweld	Lefel cymylogrwydd	Asesiad
12-8	Isel	Da
8-4	Canolig	Canolig
0-4	Uchel	Gwael

5. Sychwch neu taflwch eich cerdyn adnoddau ac ewch â'r sampl dŵr yn ôl i'r corff o ddŵr.
6. Rinsiwch eich offer.
7. Sicrhewch fod pawb yn golchi neu'n diheintio eu dwylo.

## Syniadau am gwestiynau allweddol

- Pa gasgliadau allwn ni eu gwneud am lefel ansawdd dŵr y sampl dŵr?
- Beth ydych chi'n meddwl sydd wedi dylanwadu ar lefel cymylogrwydd y sampl dŵr?
- Ydych chi'n meddwl bod y sampl dŵr yn iawn i'w yfed?
- Os nad yw, a bod angen i bobl yfed y sampl dŵr, sut y gellid gwella ansawdd y dŵr?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

### Llai abl

- Dangos sampl o ddŵr yfed sydd â lefelau cymylogrwydd isel fel y gall dysgwyr ei gymharu â'u samplau nhw.

### Mwy abl

- Rhoi copi o'r cynllun gweithgaredd i'r dysgwyr a gofyn iddyn nhw ddilyn y cyfarwyddiadau'n annibynnol.



## Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Mynd i bwll neu afon i weld pa fywyd dyfrol sydd i'w gael yn y corff o ddŵr.
- Profi pH y corff o ddŵr.
- Cymryd samplau o wahanol gyrff o ddŵr, cymharu cymylogrwydd a pH, a thrafod y gwahaniaethau.

## Gwybodaeth bellach

Nodyn Gwybodaeth - Cymylogrwydd

## Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: [addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

0300 065 3000